Cwm Taf Morgannwg

Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership



# Adroddiad Blynyddol

2024/2025





We are the golden threads of our very own tapestry,

each thread unique, each thread a masterpiece,

supported by the Regional Partnership the badge sewed on to a much larger piece,

that represents the good times, the hard times, to the nitty gritty,

if it rips, we can fix it with a stitch, sew or knit, it's I, you, we,

cause together we create the fabric of community.

Wedi'i gymryd o 'Edau Aur', cerdda grëwyd gan Duke Al a chymuned Cwm Taf Morgannwg

# Cynnwys


4 Rhagair gan y Cadeirydd

6 Uchafbwyntiau a Llwyddiannau

18 Swyddogaeth a Phwrpas

20 Gweledigaeth

20 Gwerthoedd

21 Strwythur Llywodraethu

22 Sicrhau fod lleisiau wrth galon ein gwaith

- 24 Cyd-gynhyrchu
- 27 Cyfathrebu

28 Blaenoriaethau Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

32 Ein dull integredig o ateb gofynion llesiant, gofal cymdeithasol a gofal iechyd pobl hŷn a phobl sy'n byw gydag eiddilwch, yn eu cymunedau

38 Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF)

41 Data Perfformiad RIF

45 Adrodd Ansoddol

- 48 Cyllido Cyfalaf

53 Dementia

58 Isadeiledd Rhanbarthol

- 58 Uned Gomisiynu Ranbarthol
- 59 Rhyb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwella

62 Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf Morgannwg (SCWDP)

65 Atodiad

# Rhagair gan y Cynghorydd Jane Gebbie, Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg

Fel Cadeirydd, rwy'n falch iawn o rannu Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Ranbarthol Cwm Taf Morgannwg ar gyfer 2024/25 gyda chi.



**Y Cyngh Jane Gebbie,**
Cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

**Mae Partneriaeth Ranbarthol Cwm Taf Morgannwg (RP) yn un o saith RPB yng Nghymru sy'n dwyn ynghyd amrywiaeth o bartneriaid o bob cwr o feysydd iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector, tai ac addysg i hyrwyddo ein huchelgeisiau integreiddio er mwyn diwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ein poblogaeth.**

Dros y ddau ddegawd nesaf, bydd ein cymunedau'n gweld twf sylweddol – yn enwedig ymhlith y rhai 65 oed a throsodd, gyda chynnydd sydyn yn y boblogaeth 85+. Er bod hirhoedledd cynyddol yn adlewyrchu cynnydd, mae hefyd yn cyflwyno heriau cymhleth ar gyfer cynllunio i'r dyfodol. Mewn hinsawdd o adnoddau cyfyngedig, bydd diwallu anghenion cynyddol gymhleth yn galw am arloesi beiddgar a chydweithio cryf.

Wrth i'n poblogaeth heneiddio, mae parhad a chydlynu gofal yn dod yn fwyfwy hanfodol – yn enwedig i bobl hŷn a'r rhai sy'n byw gydag eiddilwch. Ni all gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol tameidiog gyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen ar bobl. Mae unrhyw un sy'n rheoli cyflyrau cronig yn deall pwysigrwydd cymorth di-dor a hygyrch wrth gynnal annibyniaeth ac ansawdd bywyd – i unigolion a'u gofalwyr.

Mae ein Partneriaeth Ranbarthol wedi ymrwymo i adeiladu system gofal cymunedol integredig sy'n diwallu anghenion sy'n esblygu. Rydyn ni'n symud i gyfeiriad cael Cytundeb Partneriaeth Ranbarthol (RPA) ymrwymol, fydd yn galluogi swyddogaethau dirprwyedig a gweithrediadau ar y cyd ar draws sefydliadau. Bydd hyn yn symleiddio'r ddarpariaeth gwasanaethau ac yn gwella canlyniadau i'n cymunedau.

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol yn parhau i fod yn gryfder craidd yn ein partneriaeth. Rydyn ni wedi cymryd amser i wrando, arsylwi a myfyrio ar sut rydyn ni'n hysbysu, cynnwys ac ysbrydoli'r 300 o unigolion sy'n cyfrannu'n weithredol at ein gwaith. Mae'r mewnwelediadau hyn yn llunio fframwaith strategol newydd – Yr Edau Aur – sy'n symbol o blethu lleisiau amrywiol ynghyd i adeiladu cymuned bartneriaeth gref, wydn a chynhwysol.

Cafodd y buddsoddiad sylweddol o £67 miliwn mewn refeniw a chyfalaf drwy'r Bartneriaeth Ranbarthol effaith amlwg ar draws y rhanbarth, wrth i'n prosiectau a'n rhaglenni barhau i ymgorffori, esblygu a chyflawni newid ystyrlon.

Ar ben hynny, mae modelau cynaliadwy newydd o iechyd a lles yn datblygu ac yn mabwysiadu technoleg ddigidol i yrru ein huchelgeisiau yn eu blaenau.

Yr hyn sy'n gyrru ein huchelgeisiau yn eu blaenau yw datblygu a mabwysiadu modelau iechyd a lles cynaliadwy sy'n harneisio technoleg ddigidol yn fwy effeithiol.

Wrth i ni edrych ymlaen at 2025/26, hoffwn rannu fy niolchgarwch diffuant â'n holl randdeiliaid, preswylwyr a gweithwyr proffesiynol am eu hymrwymiad parhaus a'u cyfraniadau ystyrlon wrth gryfhau ein partneriaeth.

# Uchafbwyntiau a llwyddiannau

## Cipolwg ar ein heffaith

### Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF)

**23,077** o unigolion wedi cael mynediad i wasanaethau; **8,800** yn ddefnyddwyr newydd.

**58,095** o gysylltiadau wedi'u gwneud i gyd; **25,073** cyfeiriad wedi'u derbyn.

### Deilliannau Lefel-System RIF

**Osgoi 13,720** cludiad i'r ysbyty a **1,116** derbyniad i'r ysbyty.

**Cefnogi 2,528** i ddychwelyd adref o'r ysbyty.

**Cefnogi 5,767** o fyw'n annibynnol.

**Dechrau ar 2,293** pecyn teleofal.

**Atal 482** dirywiad mewn lleoli.

**Ailuno saith** o blant â theuluoedd neu ofalwyr.

### Uchafbwyntiau'r Rhaglen RIF

**Cefnogi teulyoedd:** 950 cyfeiriad; 2,258 wedi'u cefnogi; 629 teulu newydd wedi'u denu.

**Llesiant emosiynol:** 1,308 o blant wedi'u cefnogi; 854 sesiwn CBT; 671 un-i-un; 195 sesiwn grŵp.

**Cefnogaeth gymunedol:** 2,604 wedi gwella'u llesiant; 3,214 cyswllt cymdeithasol cryfach; 1,754 wedi'yu grymuso i ddylanwadu ar benderfyniadau.

**Dementia:** 1,063 cyfeiriad; bron i 1,000 o ddeilliannau cadarnhaol.

**Gofalwyr di-dâl:** Gwelliant mewn llesiant, llai o ynysrwydd, rhwydweithiau cefnogi cryfach.

### Buddsoddiad Cyfalaf

**£18.5M** o glustnodiad Cronfa Gyfalaf Tai â Gofal (HCF).

**101** o welyau newydd wedi'u creu:

- 60 Gofal Ychwanegol.
- 26 cartref plant.
- 10 ar gyfer gadawyr gofal.

**Buddsoddiad prosiect Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol:**

- £17.2M ar gyfer Canolfan Sunnyside.
- £7.6M ar gyfer Cartref Gofal Bronllwyn.
- £1M ar gyfer Hyb Iechyd a Llesiant Integredig.

### Ymgysylltu a chyfathrebu â Phartneriaid

**2,233** o bobl wedi ymgysylltu â'r bartneriaeth, gyda **279** perthynas newydd yn ffurfio yn 2024/25.

**511** o fynychwyr ewn digwyddiadau a gweithdai traws-bartneriaeth.

**20,000** defnyddiwr newydd ar ein gwefan, gyda **280,000** o ddigwyddiadau (chwarae fideo, lawrlwytho ffeil, cyflwyno ffurflen, sgrolio neu ymwneud â thudalen).





# Edrych yn ddyfnach ar ein heffaith

## Y Gronfa Integreiddio Ranbarthol

Yn 2024/25, dyrannwyd **£22,292,742** i ranbarth Cwm Taf Morganwg drwy'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol (RIF), gan alluogi i ystod eang o brosiectau a rhaglenni effaith uchel gael eu cyflawni.

Cyrhaeddodd y mentrau hyn **23,077** o unigolion, gan gynnwys **8,800** o ddefnyddwyr gwasanaeth am y tro cyntaf, gan arwain at gofnodi 58,095 o gysylltiadau – sy'n dangos ymgysylltiad cryf a rhyngweithiadau dro ar ôl tro ar draws gwasanaethau.

Mae nifer yr atgyfeiriadau – **25,073** i gyd – yn adlewyrchu'r galw cynyddol a'r ymwybyddiaeth gynyddol o'r gefnogaeth sydd ar gael ar draws y rhanbarth.

Darparwyd gwasanaethau ar draws sbectrwm o anghenion: derbyniodd **7,070** o unigolion gymorth cynnar, cyrchodd **5,530** Wybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA), elwodd **5,378** o bobl o ymyriadau arbenigol, a derbyniodd **5,082** gefnogaeth ddwys.

Mae hyn yn amlygu gallu'r rhanbarth i ymateb yn effeithiol i wahanol lefelau o gymhlethdod ac angen. Amlinellir manylion pellach am y rhaglen isod.

## Cefnogi Teuluoedd i Aros Gyda'i Gilydd

Mae'r rhanbarth wrthi'n gweithredu strategaeth gyflawn i gefnogi teuluoedd ac atal plant rhag mynd i ofal, drwy fentrau a dargedir a datblygu'r gweithlu.

**Ymysg mentrau allweddol mae:**


- Rhaglenni cefnogi cyn geni er mwyn grymuso rhiei bregus a chynyddu gwytnwch.
- Pwyslais ar berthynas gadarnhaol rhwng rhiant a phlentyn, creu rhwymyn, a chysylltu.

Mae'r rhaglen yn dangos effaith sylweddol drwy gyfrwng allbynnau a deilliannau.

Dros y 12 mis diwethaf, mae wedi cefnogi 2,258 o rieno, plant a phobl ifanc (CYP) drw 950 cyfeiriad, gan adlewyrchu cyrhaeddiad ac ymgysylltiad o bwys.

**Ymysg llwyddiannau allweddol mae:**

- **629** teulu newydd wedi'u denu, gyda chefnogaeth wedi'i theilwra'n cael ei darparu i rieni a gofalwyr.
- **93** teulu'n derbyn cefnogaeth un-i-un, tra bo 98 teulu wedi elwa o fentrau wedi'u targedu fel Rhaglen Tyfu Ymennydd.
- **46** lleoliad wedi'u cynnal yn llwyddiannus, gan helpu i gynnal sefydlogrwydd teuluoedd.
- **46** cyfranogwr wedi cymryd rhan mewn sgyrsiau ystyrlon gan ganolbwyntio ar 'beth sy'n cyfri', gan sicrhau fod cefnogaeth wedi'i unioni ag anghenion ac uchelgais unigolion.
- Cofnodwyd deilliannau cadarnhaol mewn gwella cysylltiadau cymdeithasol a lleihau ymddygiadau nad ydyn nhw'n iach hefyd.
- Cyfeiriwyd **41** unigolyn at wasanaethau perthnasol ychwanegol, gan ymateb effaith y rhaglen y tu hwnt i ddarparu uniongyrchol.






## Hyrwyddo iechyd a lles emosiynol da

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar gefnogi plant 8-11 oed a'u teuluoedd sydd angen cymorth ychwanegol i feithrin gwytnwch a gwella eu lles. Mae'n defnyddio model cymysg o ddarpariaeth, gan gynnig cefnogaeth yn yr ysgol a chefnogaeth y tu allan i'r ysgol. Cynhelir sesiynau y tu allan i'r ysgol gyda'r nos, ar benwythnosau a gwyliau mewn amrywiol leoliadau cymunedol, gan gynnwys cartrefi, parciau a chanolfannau hamdden.


Mae meysydd cefnogi allweddol yn cynnwys rheoli emosiynau fel dicter a phryder, meithrin hyder a chyfeillgarwch, ac ymdrin â phrofiadau o wahanu, profedigaeth, hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta. Mae'r rhaglen yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar gryfderau, gan deilwra ymyriadau i anghenion unigol a chanolbwyntio ar feithrin gwytnwch a llesiant emosiynol.


Mae'r rhaglen wedi cefnogi 1,308 o blant a phobl ifanc (CYP) yn llwyddiannus, gan gyflawni canlyniadau mesuradwy trwy gyfrwng strategaethau ymyrraeth gynnar effeithiol.

**Ymysg llwyddiannau allweddol mae:**

Darparu cefnogaeth therapiwtig drwy gyfrwng:

- **854** sesiwn CBT
- **671** sesiwn un-i-un
- **195** sesiwn grŵp
- Llwyddodd gweithdau a addysgir gan drawma i gyrraedd 179 gweithiwr proffesiynol a gofalwyr maeth, gan eu harfogi ag offer i gefnogi CYP yn well.



# Rhaglen Gefnogi Gymunedol

Mae'r Rhaglen yn cefnogi oedolion a phobl hŷn yn bennaf, gyda'r nod o wella llesiant ac annibyniaeth, a lleihau pwysau ar systemau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n darparu cefnogaeth anghlinigol, gan gysylltu unigolion â gwasanaethau lleol, gwybodaeth a gweithgareddau cymunedol, mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol a hyrwyddo gofal ataliol. Mae'n cefnogi'r gostyngiad mewn derbyniadau i'r ysbyty a galluogi trosglwyddiadau llyfnach yn ôl i'r gymuned.

Mae Hybiau Cymunedol, sy'n ganolog i ddarpariaeth y Rhaglen, yn gwasanaethu fel canolfannau cymdogaeth hanfodol sy'n cynnig cyngor, gwybodaeth a mynediad at wasanaethau. Mae'r canolfannau hyn yn grymuso unigolion i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain.



## Mae data'r Rhaglen yn amlygu ymgysylltu cryf ac effaith ystyrlon ar draws parthau llesiant a chefnogaeth gymdeithasol lluosog.


**Mae deilliannau allweddol yn cynnwys:**

**Llesiant a Grymuso**


- Nododd **2,604 o unigolion** welliant mewn iechyd meddwl neu lesiant emosiynol.
- Profodd **3,214 o unigolion** gysylltiadau cymdeithasol cryfach.
- Teimlai **1,754 o unigolion** eu bod wedi'u grymuso i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.
- Mynegodd **182 o unigolion** fwy o optimistiaeth am eu dyfodol.
- Nododd **175 o unigolion** welliant mewn hyder.
- Ffurfiodd **66 o unigolion** gysylltiadau cymdeithasol newydd.

**Llywio drwy'r Gwasanaeth a Bodlonrwydd**

- Cyfeiriwyd **1,552 o unigolion** at wasanaethau perthnasol.
- Derbyniodd **1,389 o unigolion** gymorth uniongyrchol wrth lywio gwasanaethau.
- Mynegodd **721 o unigolion** foddhad â'r gwasanaethau y cafwyd mynediad iddynt.




Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu effeithiolrwydd y rhaglen wrth hyrwyddo llesiant personol, meithrin cynhwysiant cymdeithasol, a gwella mynediad at systemau cymorth.








## Rhaglen Dementia

Mae Rhaglen Dementia Cwm Taf Morganwg yn fenter gydweithredol sy'n cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Dementia Cymru Gyfan a Llwybr Safonau Gofal Dementia, sy'n canolbwyntio ar wella gofal a chymorth i bobl sy'n byw gyda dementia.

Yn 2024/25, derbyniodd y rhaglen 1,063 o atgyfeiriadau – sy'n adlewyrchu galw parhaus ac uchel. Nododd bron i 1,000 o unigolion ganlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys llesiant meddyliol ac emosiynol gwell a mwy o ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael. Profodd llawer gysylltiadau cymdeithasol gwell hefyd, gan helpu i leihau unigedd a chryfhau ymgysylltiad cymunedol.




## Gofalwyr Di-dâl

Mae'r Rhaglen Cymorth i Ofalwyr yn darparu adnodd hanfodol i ofalwyr o bob oed, gan ddarparu cymorth wedi'i deilwra i ddiwallu eu hanghenion amrywiol. O ofalwyr ifanc sy'n ymdpi ag ysgol ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau, i unigolion hŷn sy'n gofalu am anwyliaid â dementia neu eiddilwch.


Nododd gofalwyr amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol yn sgil y cymorth a ddarparwyd:

- **Gwell llesiant a gwytnwch:** Mae llawer o ofalwyr yn teimlo eu bod wedi'u cefnogi'n fwy ac wedi'u paratoi'n well i reoli gofynion emosiynol a chorfforol gofalu, gan ddangos mwy o wytnwch wrth ymdrin â straen a chyfrifoldebau dyddiol.
- **Llai o unigedd cymdeithasol:** Mae cymryd rhan mewn grwpiau cymorth, gweithdai a digwyddiadau cymunedol wedi helpu gofalwyr i deimlo'n llai unig, gan feithrin ymdeimlad o berthyn, a chysylltiad ag eraill mewn sefyllfaoedd tebyg.
- **Gwell rhwydweithiau cymorth:** Mae gofalwyr wedi ehangu rhwydweithiau anffurfiol â cyfoedion yn ogystal â chysylltiadau ffurfiol â darparwyr gwasanaethau, gan gael mynediad at gymorth ymarferol a chymorth emosiynol.
- **Hyder cynyddol:** Trwy sesiynau wedi'u teilwra, mae gofalwyr wedi datblygu sgiliau a strategaethau newydd, gan hybu eu hyder yn eu rolau gofalu.
- **Adborth cadarnhaol:** Mae ymatebion ansoddol yn tynnu sylw'n gyson at werthfawrogiad dwfn o'r cymorth a geir, gan atgyfnerthu gwerth ac effaith y rhaglen.

Ar y cyfan, mae'r Rhaglen Cymorth i Ofalwyr yn gwella ansawdd bywyd gofalwyr, gan hyrwyddo'u hymwybyddiaeth a'u grymuso. Drwy hyrwyddo cymuned gefnogol, mae'r rhaglen yn sicrhau bod gofalwyr mewn gwell sefyllfa i ymdopi â'u rolau, gan fod o fudd yn y pen draw i ofalwyr a'r rhai y maen nhw'n gofalu amdanynt.




Yn 2025/26 byddwn ni'n parhau i ddysgu, rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio, ac adeiladu ar y gwaith da sy'n digwydd er mwyn i ni allu creu deilliannau iechyd a chymdeithasol gwell, a chreu Chwm Taf Morganwg ble gall pobl ffynnu ynddo.






# Swyddogaeth a phwrpas

**Sefydlwyd Partneriaeth Ranbarthol Cwm Taf Morganwg i gyflawni'r bwriad strategol a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn benodol Rhan 9.**

Ein pwrpas yw gwella canlyniadau a llesiant pobl, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y modd y darperir gwasanaethau. Sylwch fod pwrpas y bwrdd hefyd wedi'i nodi yn Rhan 2 o'r Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol).

Ni yw'r corff arweinyddiaeth allweddol ar gyfer goruchwylio'r holl waith integreiddio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Drwy ddod â phobl a sefydliadau ynghyd o bob rhan o feysydd iechyd a gofal cymdeithasol, rydyn ni'n cynrychioli'n ffurfiol fuddiannau'r awdurdodau lleol, y Bwrdd Iechyd a'i randdeiliaid allweddol.

Rydyn ni'n gyfrifol am fonitro cynnydd a chyflenwi rhaglenni gwaith integredig ar draws y rhanbarth yn barhaus.

## Amcanion statudol y Bartneriaeth Ranbarthol yw:

1. Ymateb i'r asesiad poblogaeth a gynhaliwyd yn unol ag adran 14 o'r Ddeddf.
2. Gweithredu'r cynlluniau ar gyfer pob un o feysydd yr awdurdodau lleol sy'n dod o dan y bwrdd, y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd eu paratoi a'u cyhoeddi o dan adran 14A o'r Ddeddf.
3. Sicrhau bod cyrff y bartneriaeth yn darparu digon o adnoddau ar gyfer trefniadau'r bartneriaeth, yn unol â'u grymoedd o dan adran 167 o'r Ddeddf.
4. Hyrwyddo sefydlu cronfeydd ar y cyd lle bo'n briodol.

**Un o'n prif nodau yw hwyluso gweithredu blaenoriaethau'r Cynllun Ardal Ranbarthol yn llwyddiannus. Mae'r cynllun yn cynnwys nifer o flaenoriaethau a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â 500 o weithwyr proffesiynol, pobl â phrofiad byw, eu teuluoedd a'u gofalwyr.**

Cafodd rhyw 22 o ffrydiau gwaith, sy'n cynnwys 310 o bobl, y dasg o gydweithio i gefnogi cyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Ardal Ranbarthol.

Wrth i sefydliadau'n wynebu pwysau fyrdd, gall gweithio mewn partneriaeth fod yn her. Serch hynny, gwyddom y gall gweithio mewn partneriaeth dda arwain at ddeilliannau gwell i'n poblogaeth.

Cynhaliwyd ymchwil gyda'n haelodau llif gwaith i gael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau, ac i archwilio syniadau ar gyfer gwella. Un peth a ddeilliodd o'r gwaith hwn oedd cael gwared ar y 'Bwrdd' ac ail-frandio fel 'Partneriaeth Ranbarthol' er mwyn creu ymdeimlad ar y cyd o berchnogaeth a chynhwysiant.



**Gallwch weld pwy yw aelodau ein RP yma.**

# Ein gweledigaeth

**Gwneud gwahaniaeth** i fywydau pobl drwy eu **cynnwys**, **gwrando** a **gweithredu gyda'n gilydd** i **drawsnewid** y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu.

# Ein gwerthoedd

Rydyn ni wedi gweithio i amlygu gwerthoedd craidd, sy'n cryfhau ein hymrwymiad i ddarparu'r gwasanaethau gorau ar gyfer pobl ar yr amser ac yn y lle cywir. Dyma nhw:

**Cynhwysiant** Arweinir ein gwaith gan ein cymunedau ac rydyn ni'n ymrwymo i sicrhau bod gan bawb y cyfle i gymryd rhan.

**Cydraddoldeb** Rydyn ni'n credu mewn creu cymdeithas deg a chyfartal. Dylai pob person gael mynediad at wasanaethau sy'n eu cefnogi i fyw bywydau hapus ac iach.


**Geirwiredd** Rydyn ni'n addo bod yn onest, yn agored ac yn dryloyw ym mhopeth a wnawn.

**Cydweithio** Mae ein cymunedau wrth wraidd yr hyn a wnawn. Byddwn ni'n gweithio'n barhaus mewn partneriaeth â phobl leol i gynllunio a darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod nhw'n derbyn y gefnogaeth a'r gwasanaethau cywir.

**Arloesi** Byddwn ni'n gwneud pethau'n wahanol er mwyn gweithio'n well gyda chymunedau lleol, a'u cefnogi.

# Strwythur Llywodraethu

**Deliberate design and governance ensure governance arrangements remain fit for purpose and support the RPB to carry out our business efficiently and effectively.**




# Sicrhau fod lleisiau wrth wraidd gwella gwasanaethau

## Yr Edau Aur: gwau partneriaethau cryf yn CTM

**Mae'r Edau Aur yn ddull strategol o gryfhau cydweithio ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a'r gymuned.**

Deilliodd prosiect yr Edau Aur o gydnabod bod gweithio partneriaeth effeithiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn gofyn am fwy na strwythur – mae'n mynnu pwrpas ar y cyd, ymddiriedaeth, a newid diwylliannol. Yn 2024, bu i ni gynnal arolwg ymysg aelodau ein llif gwaith i ddeall pa rwystrau sy'n atal gwell cydweithio. Roedd yr heriau allweddol yn cynnwys adnoddau cyfyngedig, gweithluoedd dan straen, a'r risg y byddai gwaith partneriaeth yn teimlo fel 'ychwanegiad' yn hytrach na swyddogaeth graidd. Yn ogystal, nodwyd bod ymgysylltu ag aelodau'r gymuned yn ystyrlon yn her, gyda phryderon ynghylch dyfnhau anghydraddoldebau os na fyddai'n cael ei reoli'n dda.




Mewn ymateb, ffurfiwyd grŵp gorchwyl a gorffen o weithwyr proffesiynol ac aelodau'r gymuned i archwilio atebion ac ail-lunio rôl y Bartneriaeth Ranbarthol fel hwylusydd, comisiynydd, a galluogwr – gan osod y sylfeini ar gyfer y dull Edau Aur. Mae'r Edau Aur yn cynrychioli'r gwerth unigol, y profiadau, y sgiliau a'r wybodaeth a ddaw yn sgil pob person – a phan gânt eu plethu ynghyd, mae hyn yn creu partneriaeth gref sy'n gweithio'n weithredol o blaid newid a gwell canlyniadau.

Amcan y rhaglen, a wreiddiwyd gan ymddiriedaeth, tegwch a chyd-gynhyrchu, yw mynd i'r afael â rhwystrau sy'n llesteirio gweithio mewn partneriaeth, drwy ymgorffori newid diwylliannol a meithrin cydweithio ystyrlon a chynaliadwy ar draws y rhanbarth.

Ers dechrau'r prosiect, cymerwyd amrywiaeth o gamau gweithredu: datblygwyd a phrofwyd pecynnau sefydlu a disgrifiadau swyddi; tynnwyd y term 'bwrdd' o'r brandio i leihau rhwystrau i gyfranogiad; lansiwyd cynlluniau peilot cyd-gynhyrchu ym meysydd anableddau dysgu, plant a phobl ifanc, a dementia; cynhaliwyd sesiynau ymarfer myfyriol gydag arweinwyr a ffrydiau gwaith. Mae cerdd a gyd-gynhyrchwyd, a chyfweliadau y tu ôl i'r llenni wedi helpu i wireddu'r cysyniad, ac mae gwaith parhaus yn parhau i ymgorffori gwerthoedd partneriaeth a dysgu ar draws y system.

### Tri philer y prosiect

**1 Addysgu:**

- Gwella rhannu gwybodaeth ar draws y bartneriaeth.
- Sicrhau fod pobl yn cael gwybodaeth am eu swyddi au cyfrifoldebau, a'u pwrpas dros fod yn rhan o'r bartneriaeth – gan ddangos y gwerth y bydd yn cynnig iddynt.

**2 Cynnwys:**

- Cynnwys pobl ar yr adeg sy'n iawn iddyn nhw a'r bartneriaeth.
- Sichrau ymwneud ystyrlon oddi wrth bawb, gan gynnwys y rheiny â phrofiadau byw.
- Rhoi egwyddorion cyd-gynhyrchu'n sail i'r gwaith.

**3 Ysbrydoli:**

- Creu diwylliant o ysbrydoli a dathlu, er mwyn creu momentwm ynghylch gweithio mewn partneriaeht a bod yn rhan o'r RP.
- Dod o hyd i ffyrdd o rannu straeon a phobl sy'n ysbrydoli, a chydnabod y rheiny sy'n gwneud gwaith rhagorol ym maes y bartneriaeth.

Byddwn ni'n parhau i arwain prosiect yr Edau Aur ymlaen i 2025/26, gan fonitro a gwerthuso deilliannau sy'n ymwneud â'r dull newydd hwn o weithio.

# Cyd-gynhyrchu

**Mae cyd-gynhyrchu yn egwyddor greiddiol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ei ymgorffori ym mhob agwedd ar eu gwaith. Fel partneriaeth, rydyn ni'n cydnabod yn llawn werth cyd-gynhyrchu, nid yn unig fel dyletswydd statudol, ond fel dull grymus o lunio gwasanaethau cynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar y person, trwy rannu grym a phrofiad byw.**

Dyma ein diffiniad o gyd-gynhyrchu rhanbarthol:

**'Mae cyd-gynhyrchu'n trawsnewid perthynas rhwng y rhai sy'n darparu ac yn derbyn gwasanaethau ar draws Cwm Taf Morganwg mewn modd cadarnhaol, trwy werthfawrogi profiad byw a rhannu grym er mwyn dylanwadu ar newid ystyrlon a'i ymgorffori'.**



**Gwyliwch ein ffilm Edau Aur yma.**


## Enghreifftiau o wreiddio cyd-gynhyrchu yn ein partneriaeth

### Dementia: gwella gofal a chefnogaeth drwy gyfrwng ymgysylltu a chyd-gynhyrchu

Rydyn ni wedi ymrwymo i greu amgylchedd ystyrlon ar gyfer cyd-gynhyrchu gyda phobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth graidd i'r Grŵp Llywio Dementia, a dyrannwyd cyllid pwrpasol i gefnogi'r gwaith hwn. Drwy gydol 2024-2025, casglwyd mewnwelediadau o gyfres o ddigwyddiadau cymunedol – gan gynnwys Troi Pontypridd yn Las, Diwrnod Dementia yn Sandfields, a'r Eisteddfod ym Mhontypridd – gan gofnodi profiadau byw a rhoi ffurf ar gynllun gwasanaethau i'r dyfodol.

Arweiniodd y mewnwelediadau hyn at gyd-gynhyrchu 'Taith Dementia' – offeryn gweledol a naratif sy'n mapio camau allweddol fel adnabod symptomau, ceisio cymorth, asesu, diagnosis, a bywyd ar ôl diagnosis. Mae'r gwaith hwn wedi llywio newidiadauo ran rhoi cefnogaeth i wasanaethau cof a chreu grŵp gorchwyl a gorffen newydd i gyd-gynllunio adnoddau hygyrch gyda phobl â phrofiad byw.

Yn hollbwysig, cafodd y gwersi hyn bellach eu hymgorffori yn y fenter Edau Aur, gan sicrhau bod lleisiau pobl â dementia a'u gofalwyr yn cael eu cynrychioli'n well ac yn cael eu cynnwys yn ystyrlon ar draws y Bartneriaeth Ranbarthol. Mae'r dull hwn yn cryfhau ein hymrwymiad at gydweithio cynhwysol, sy'n cael ei arwain gan werthoedd, ac mae'n helpu i blethu eu profiadau i hanfod gwneud penderfyniadau a gwella gwasanaethau.



## Grant Cymhelliad Cyd-gynhyrchu'r Bwrdd Plant Rhanbarthol 24/25

Cynlluniwyd y Grant Cymhelliant Cyd-gynhyrchu, a sefydlwyd yn 2024, i ymgorffori arfer cyd-gynhyrchiol ar draws gwasanaethau ar gyfer babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd. Yn unol â [fframwaith NEST]() Llywodraeth Cymru a'r dull [Dim Drws Anghywir,]() cefnogodd y grant hyfforddiant a gweithredu.

Dechreuodd y rhaglen gyda hyfforddiant cyd-gynhyrchu a ddarparwyd gan Lab Cyd-gynhyrchu Cymru, gan ganolbwyntio ar bump o werthoedd craidd ac offer ymgysylltu ymarferol. Cymerodd dros 80 o unigolion ran, gyda llawer yn mynd ymlaen i gymhwyso eu dysgu trwy brosiectau a ariannwyd gyda'r nod o wella darpariaeth gwasanaethau.

Cefnogwyd ystod amrywiol o brosiectau, pob un yn targedu gwelliannau gwasanaeth penodol:

| Prosiect | Amcan | Manylion |
|---|---|---|
| Stori Bywyd Ddigidol | Hybu iechyd emosiynol | Animeiddiad wedi'i gyd-gynhyrchu gydag ieuenctid sydd wedi profi gofal, er mwyn esbonio'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol. |
| Spectacle Theatre | Peilot iechyd meddwl | Gweithdai ar sail drama ar gyfer archwilio iechyd meddwl. Hunaniaeth gyda phobl ifanc. |
| CTMUHB | Gwasanaeth therapi newydd-anedig | Gwerthusiad gwasanaeth a gyd-gynhyrchwyd gyda rhieni drwy gyfrwng grwpiau ffocws. |
| Home-Start Cymru | Cefnogi teuluoedd difreintiedig | Strategaethau a gyd-ddatblygwyd gyda theuluoedd sy'n canolbwyntio ar lesiant emosiynol a niwroamrywiaeth. |
| Pobl yn Gyntaf Cwm Taf | Ymwybyddiaeth dros bobl ifanc | Sesiynau hunan-eiriol a hawliau dynol ar gyfer oedolion ifanc ag anableddau dysgu. |
| Gwasanaeth Cymorth Parhad Aml-asiantaeth | Gwella cefnogaeth mewn gofal | Strategaethau cefnogi a gyd-gynlluniwyd gan ofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol. |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Ymgynghoriad maethu | Ymgynghoriadau gofalwyr i ffurfio gwasanaethau sy'n canoli ar y plentyn. |
| Sefydliad Gelli-deg | Ymgysylltiad cymunedol | 14 sesiwn i gasglu mewnbwn gan deuluoedd ar gyfer cynllunio gwasanaeth integredig. |

Fe wnaeth lleisiau cyfranogwyr roi cipolwg ar yr effaith:

- *"Fe wnaethon nhw wirioneddol newid pethau. Dyw hynny erioed wedi digwydd o'r blaen."* **– Rhiant, Home-Start Cymru**
- *"Fe wnaeth i mi deimlo bod fy stori'n bwysig"* **– Person ifanc sydd wedi cael profiad o ofal**
- *"Roedd ei wneud drwy gyfrwng drama'n golygu ei fod yn haws."* **– Person ifanc, Theatre Spectacle**
- *"Fe wnaethon ni helpu i lunio rhywbeth fydd yn helpu teuluoedd eraill."* **– Rhiant, CTMUHB**

# Cyfathrebu

**Mae cyfathrebu effeithiol ac ymgysylltu ystyrlon yn ganolog i lwyddiant y bartneriaeth. Adeiladwyd ein strategaeth o gwmpas tri phrif nod – Hysbysu, Cynnwys ac Ysbrydoli – ac fe'i cynlluniwyd i gefnogi ein rôl fel hwylusydd, comisiynydd a galluogwr gofal iechyd a chymdeithasol integredig.**

Ein nod yw hysbysu drwy sicrhau cyfathrebu clir, amserol a hygyrch ar draws pob ffrwd waith ac yn allanol. Mae ein cynllun ar gyfer 2025/26 yn cynnwys cyhoeddi adroddiadau effaith chwarterol, lansio cyfres o gyfarfodydd rhwydwaith trawsbartneriaeth, a chryfhau ymwybyddiaeth o bwrpas a swyddogaeth y bartneriaeth drwy frand unedig, hawdd ei adnabod, a llais cyson, cysylltiedig.

Er mwyn cynnwys, rydyn ni wedi ymrwymo i greu cyfleoedd ar gyfer cynnal deialog a chyd-gynhyrchu ystyrlon o'r ddwy ochr. Yn 2025/26 ein bwriad yw parhau i fuddsoddi mewn cefnogi diwylliant o ymarfer ymgysylltu ystyrlon drwy lansio rhaglen hyfforddi cyd-gynhyrchu chwarterol, datblygu pecyn cymorth ymgysylltu ymarferol, a chynyddu cynrychiolaeth ymhlith pobl sydd â phrofiad byw ar ffrydiau gwaith.

Mae ein nod o ysbrydoli yn canolbwyntio ar ddathlu arloesi a chreu effaith. Byddwn ni'n parhau i rannu straeon effaith, cynnal digwyddiadau i ddangos arfer da, ac ymgorffori adrodd straeon yn ein holl gyfathrebiadau er mwyn meithrin diwylliant o gyd-berchnogaeth a gwelliant parhaus.

Yn sail i'r strategaeth hon mae egwyddorion ymddiriedaeth, cynhwysiant a bod yn ymatebol. Byddwn ni'n teilwra ein negeseuon ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol – gan gynnwys pobl â phrofiad byw, gweithwyr proffesiynol, partneriaid trydydd sector a llunwyr polisi, ac yn defnyddio cymysgedd o sianeli digidol ac wyneb yn wyneb, fel ein sianel LinkedIn newydd (sy'n lansio yn y gwanwyn 2025) a chylchlythyr, digwyddiadau cymunedol ac adrodd straeon amlgyfrwng.

Ymgorfforwyd gwerthuso drwyddi draw, gan ddefnyddio offer digidol a chyfleoedd wyneb yn wyneb i dracio ymgysylltiad, adborth ac effaith ein cyfathrebiadau yn y byd go iawn.

### Dyma ein heffaith ar gyfer 2024/25:

**Gwefan** – **20K** o ddefnyddwyr gweithredol i'r wefan a **280K** o ddigwyddiadau (chwarae fideo, lawrlwytho ffeil, cyflwyno ffurflen, sgrolio neu ymwneud â thudalen).

**YouTube** – **1.4K** gweledigaeth, **24.2** awr o wylio.

**Ymgysylltu** – Fe wnaeth **2,233** o bobl ymgysylltu â'r bartneriaeht, gyda **279** perthynas newydd yn ffurfio yn 2024/25.

Mynychodd **511** ddigwyddiadau traws-bartneriaeth a gweithdai.

# Blaenoriaethau Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

**Mae Bwrdd Rhaglen Ranbarthol Plant wedi nodi pedwar uchelgais allweddol ar gyfer buddsoddiad RIF o 2023/24, a phob un yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant a theuluoedd ar draws Cwm Taf Morgannwg:**



### Uchelgais 1:

Datblygu llwybrau cadarn ar gyfer rhoi cefnogaeth ymddygiad rhieni ac arbenigol i blant â chyflyrau niwroddatblygiadol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo o dan arweinyddiaeth y Bwrdd Gwella Niwro-amrywiol (NDIP).

### Uchelgais 2:

Ehangu cefnogaeth llesiant emosiynol i blant 8–11 oed, gan ddefnyddio chwarae, therapi, ac ymyriadau yn yr ysgol i feithrin gwytnwch ac iechyd meddwl.

### Uchelgais 3:

Atal plant rhag mynd i ofal trwy fuddsoddi mewn gwasanaethau cyn-geni a blynyddoedd cynnar sy'n cryfhau gallu rhieni ac yn hyrwyddo amgylcheddau diogel a meithringar.

### Uchelgais 4:

Sefydlu cyfleuster preswyl rhanbarthol i gefnogi plant ag anghenion iechyd emosiynol a meddyliol cymhleth, gan sicrhau mynediad at ofal arbenigol yn nes at adref.

## Ein Dull Integredig o Fynd i'r Afael ag Anghenion Gofal a Chefnogaeth Babis, Plant a Phobl Ifanc

Cafodd ein Cydlynydd Gwasanaeth Plant Rhanbarthol a Fframwaith NYTH/NEST y dasg o gydweithio ag asiantaethau partner i gyd-gynhyrchu a gweithredu Fframwaith NYTH/NEST. Mae hyn yn cynnwys ymgorffori ei egwyddorion craidd a chefnogi cyflwyno Offeryn Hunanasesu (SAT) NYTH/NEST.

Cynlluniwyd y SAT i gefnogi gwasanaethau, prosiectau a sefydliadau sy'n hyrwyddo llesiant ac iechyd meddwl babanod, plant a phobl ifanc. Mae'n eu galluogi i asesu eu cynnydd wrth fabwysiadu dull NYTH/NEST ac i integreiddio ei egwyddorion i ymarfer bob dydd.

Ym mis Hydref 2024, cwblhaodd y Bwrdd Plant Rhanbarthol ei SAT a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig. Mae sefydliadau partner wedi ymgysylltu'n weithredol â'r modiwlau hyfforddi ar-lein, gan gynyddu ymwybyddiaeth a chymhwyso Fframwaith NYTH/NEST.


Cwblhaodd pob un o'r naw prosiect RIF Plant a Theuluoedd eu SATs a'u Cynlluniau Gweithredu, gan ddangos ymgysylltiad ystyrlon â'r Fframwaith. Yn ogystal, cafodd amrywiaeth o sefydliadau a thimau eraill hefyd eu cefnogi i gynnal eu hasesiadau.

I gefnogi rhoi hyn ar waith ymhellach, cyflwynwyd cyfres o sesiynau hyfforddi ar Offer a Thechnegau Cyd-gynhyrchu drwy gydol y flwyddyn.

NYTH | NEST

**Uchafbwynt effaith:**

Profiad prosiect gyda Fframwaith NYTH/NEST



## Adroddodd un prosiect am sawl mantais allweddol o ganlyniad i ddefnyddio Fframwaith the NYTH/NEST:

### Cydweithio a Myfyrio fel Tîm

Fe wnaeth y SAT feithrin mwy o ymlyniad tîm, gan annog ymarferwyr i gydweithio a myfyrio ar sut i ddarparu'r gwasanaeth ar y cyd.

### Llais Defnyddiwr y Gwasanaeth a Chyd-gynhyrchu

Pwysleisiwyd pwysigrwydd integreiddio adborth defnyddwyr gwasanaeth. O ganlyniad, ymrwymodd y tîm i:

- Ddatblygu holiadur adborth ffurfiol.
- Defnyddio prociau anffurfiol mewn ymwneud beunyddiol.

### Herio'r Status Quo

Sbardunwyd timau gan y fframwaith i holi "Sut olwg fyddai ar 'gwell'?" – gan yrru gwelliant parhaus a myfyrio beirniadol ar draws meysydd gwasanaeth.

### Gwerth ar draws y System

Sefydlodd Fframwaith NYTH/NEST ieithwedd ar y cyd a safonau cyson ar draws asiantaethau, gan gefnogi'r dull 'Dim Drws Anghywir' a gwella atebolrwydd.





# Ein dull integredig o ateb anghenion llesiant, gofal cymdeithasol a gofal iechyd pobl hŷn a phobl sy'n byw ag eiddilwch, yn eu cymunedau

**Fel llawer ardal ledled y wlad, mae CTM yn gweld galw cynyddol oddi wrth boblogaeth sy'n heneiddio, ag anghenion gofal sy'n fwyfwy cymhleth.**

**Mae angen datblygu system Gofal Cymunedol Uwch integredig ar gyfer y rhanbarth sy'n gwella canlyniadau ar gyfer ein poblogaeth.**

**Mae hi'n hanfodol ein bod ni'n ail-ffocysu ein gwasanaethau i ateb anghenion ein cymunedau yn hytrach na chadw at ffyrdd hanesyddol o weithio. Mae hi'n amser darparu dull synhwyrol o weithredu gofal cymunedol sy'n unol â blaenoriaethau cenedlaethol a gwybodaeth fwy lleol, sy'n canolbwyntio ar well deilliannau a phrofiadau i'r claf.**

Amcanion allweddol yr ailddylunio hwn yw:

- Darparu model clir o ofal canolraddol sy'n cefnogi integreiddio ag Awdurdodau Lleol.
- Cyflawni canlyniadau gwell mewn perthynas â gofal cleifion a phrofiad cleifion, trwy sail dystiolaethol gref ar gyfer gwasanaethau a ailgynlluniwyd.
- Cynnig gwasanaethau cyfartal ar draws y rhanbarth, gan ganiatáu ar gyfer amrywiad lleol, ond gan fabwysiadu dull 'Un CTM'.
- Sicrhau bod gwasanaethau'n fforddiadwy ac yn cynrychioli gwerth am arian, trwy leihau dyblygu, atal derbyniadau i'r ysbyty, galluogi rhyddhau cyflym a helpu pobl i fyw mor annibynnol â phosibl.

Mae arfer da cenedlaethol yn nodi bod angen pedair colofn o ofal canolraddol sy'n gweithio'n ddi-dor gyda'i gilydd, wedi'u rheoli a'u cyrchu trwy un strwythur.

Dyma'r gwasanaethau hynny:


- Ymateb i Argyfwng: yn aml caiff ei ddisgrifio fel 'ward rithwir' neu 'ysbyty gartref' er mwyn darparu ymateb amlddisgyblaethol ar fyrder i gleifion sydd angen cymorth brys i osgoi gorfod mynd i'r ysbyty neu gymorth rhyddhau.
- Wedi'i leoli yn y cartref: rhaglen gymorth amlddisgyblaethol dan arweiniad y cofrestrydd i hyrwyddo adferiad, adsefydlu a sefydlogi anghenion.
- Ar sail gwelyau: cymorth amser cyfyngedig 24/7 ar gyfer adsefydlu, adferiad ac asesiad ar gyfer y cam gofal nesaf.
- Ailalluogi: cymorth dyddiol ar gyfer gweithgareddau byw bob dydd i hyrwyddo annibyniaeth, gyda sylw arbennig ar y maint cywir neu ar leihau'r angen am ofal a chymorth hirdymor.

Dylai cymorth cymunedol effeithiol ar gyfer y system frys ac argyfwng ddod â gofal canolraddol ynghyd â thimau rhyddhau trwy un pwynt mynediad, gan gynnwys gofal sylfaenol brys.


Mae’r dull hwn, sy’n seiliedig ar systemau, yn hanfodol gan fod gan bob rhan o’r system Gofal Cymunedol gyd-ddibyniaethau. Gelwir glasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymunedol effeithiol yn Ofal Cymunedol Gwell (ECC).

Cynlluniwyd y model hwn i fynd i’r afael â lefelau cynyddol o angen a chymhlethdod, fel yr amlinellir isod:









## Cytunodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y dylid rhannu gofal cymunedol uwch yn CTM yn ddau lwybr gofal:

**Gofal Canolraddol:** ar gyfer ymateb brys ac argyfwng mewn gwasanaethau cymunedol sylfaenol i gefnogi cleifion am gyfnod penodol ar adegau o angen neu argyfwng uwch i helpu i sefydlogi angen, hyrwyddo adferiad ac adsefydlu.

**Gofal Cymunedol Rhwydweithiol:** hyrwyddo rheoli iechyd y boblogaeth yn effeithiol gyda gwasanaethau sy’n cefnogi meddygon teulu a Chlystyrau Gofal Sylfaenol i gadw cleifion yn sefydlog, yn iach ac yn annibynnol cyhyd â phosibl a chynnwys y gefnogaeth o ddydd i ddydd a ddarperir gan nyrsys ardal, pecyn gofal neu gefnogaeth hunan-symud.

Fel arfer, bydd gwasanaethau yn y llwybrau hyn yn cael eu darparu ar lefel ‘clwstwr’ gyda thimau amlddisgyblaethol yn dwyn ynghyd y rhwydweithiau cymorth presennol i ddarparu gofal di-dor yn well.

Mae hyn wedi ein harwain i gryfhau’r cysylltiadau rhwng y rhaglen hon a grwpiau cynllunio ar draws y clwstwr a’r Rhaglen Chwe Nod rhanbarthol ar gyfer Gofal Brys ac Achosion Brys.

Rydyn ni wedi mapio gwasanaethau presennol a phrosiectau RIF ar y llwybrau newydd, wedi penodi i rôl arweinyddiaeth allweddol i yrru’r gwaith hwn ymlaen ac wedi cychwyn sawl gweithgor. Mae cynllun rhaglen yn cael ei ddatblygu a phob partner wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â’i roi ar waith yn gyson ar draws y rhanbarth.

Ein bwriad yw y bydd camau sylweddol yn cael eu cymryd dros y 12 mis nesaf i weithredu’r llwybrau newydd hyn a symleiddio’r trefniadau rheoli ymhlith ein sefydliadau fel ein bod ni’n gweithredu ac yn cyflawni fel un system, nid fel sefydliadau ar wahân, gyda chefnogaeth cytundeb adran 33 cadarn.

## Her y Gaeaf Gofal Integredig

**Gwelodd yr her 50 diwrnod y rhanbarth yn gallu cydgrynhoi a chyflymu sawl cynllun a oedd wedi'u halinio â'r Rhaglen 6 Nod, y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a datblygu'r Clwstwr Cyflymach.**

Fel y dangoswyd yn y cyfarfodydd blaenoriaeth Gweinidogol rheolaidd a'r Pwyllgor Gweithredu Gofal (CAC), rydyn ni wedi ymrwymo yng Nghwm Taf Morgannwg i weithio mewn partneriaeth a gwneud gwelliannau i'r system er mwyn gwella llif, a yrrir gan ddealltwriaeth gadarn o ddata a pherfformiad.



Rydyn ni wedi ymdrechu i gyflawni'r cynllun fel y'i cyflwynwyd ddiwedd mis Rhagfyr 2024 ac wedi gweld rhywfaint o lwyddiant amlwg wrth leihau oediadau a gwella llif cleifion. Mae gweithredu Optimise wedi dechrau dangos gwelliant cynaliadwy ac mae model 'syth i wasanaeth' yn RCTCBC wedi lleihau oediadau'n fawr ar gyfer pecynnau gofal.

Mae ehangu llwybrau hybiau llywio clinigol a sefydlu cynlluniau ar gyfer un pwynt mynediad, ynghyd â gwella gweithio integredig presennol a thimau a gefnogir gan gytundebau Adran 33 estynedig, yn ddatblygiadau hanfodol i'r rhanbarth.

## Lleihad mewn oedi llwybrau gofal oherwydd asesiad (P1)

**Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg**

| | Uchelgais lleihau targedau erbyn Tach 24 | Trothwy Mawrth 24 | Ionawr 25 | Safle Ionawr 25 | Chwefror 25 | Safle Chwefror 25 | Mawrth 25 | Safle Mawrth 25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm oediadau** | 15% | 328 | 261 | ↓ 20.4% | 260 | ↓ 20.7% | 241 | ↓ 26.5% |
| **Dyddiau o Oedi** | 20% | 18,460 | 13,991 | ↓ 24.2% | 14,409 | ↓ 21.9% | 14,861 | ↓ 19.5% |
| **Oedi o ran Asesu** | 20% | 170 | 123 | ↓ 27.6% | 153 | ↓ 10.0% | 111 | ↓ 34.7% |

Yn ystod cyfnodau'r Nadolig a'r gaeaf, arhosodd perfformiad y system yn sefydlog. Ym mis Mawrth, mae cyfanswm yr oediadau ac oediadau asesu yn parhau i fod yn fwy na'r targedau, ond mae'r dyddiau o oedi wedi gwella ychydig, ychydig islaw'r targed bellach. Gyda'i gilydd, awgryma'r dangosyddion hyn fod cynnydd ystyrlon yn llif cyffredinol y system. Fodd bynnag, mae heriau'n parhau – yn enwedig i gleifion ag anghenion cymhleth, fel y rhai sydd angen gofal nyrsio EMI.



# Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF)

**Fel y soniwyd uchod, clustnodwyd £22,292,742 i ranbarth Cwm Taf Morgannwg drwy gyfrwng y Gronfa Integreiddio Ranbarthol (RIF), gan alluogi darparu ystod eang o brosiectau a rhaglennu mawr eu heffaith.**

## Beth mae'r RIF yn amcanu i'w wneud?

Bydd y RIF yn helpu sefydliadau sy'n gweithio ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant i wneud y pethau canlynol:

1. Canolbwyntio ar atal a thaclo heriau ar gam cynnar.
2. Gweithio ar y cyd i ddatblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol 'unedig'.
3. Rhannu profiadau a'r hyn a ddysgwyd gyda'i gilydd drwy gyfrwng grwpiau penodol a lewyr yn 'gymunedau ymarfer'.
4. Dwyn ynghyd staff o sefydliadau gwahanol i ddarparu gwasanaethau.

## Beth yw'r modelau gofal?

Dyma'r chwe model gofal y bydd y RIF yn eu cefnogi, isod:

### Gofal a seilir yn y gymuned – atal a chydlynu cymunedol

Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cymunedol sy'n helpu i warchod preswylwyr rhag problemau iechyd neu lesiant mwy hirdymor, gan gynnwys gwasanaethau cyfeillio, hybiau cymunedol, atal cwympo, a mynediad i wasanaethau llesiant.

### Gofal a seilir yn y gymuned – gofal cymhleth yn nes at adref

Bydd hyn yn helpu i wella adferiad ar ôl cyfnod o afiechyd, gan helpu pobl oi fod yn fwy annibynnol yn y tymor hir. Gallai cefnogaeth gynnwys help yn y cartref gan dimau arbenigol sy'n gweithio yn y gymuned, ac adsefydlu cymunedol.

### Hybu iechyd a llesiant emosiynol da

Mae gwella iechyd meddwl a llesiant yn ein cymunedau'n flaenoriaeth. Bydd hyn yn helpu i greu a gwella gwasanaethau ar gyfer oedolion a phobl ifanc fel ei gilydd, sydd angen cefnogaeth iechyd emosiynol a llesiant.

## Cefnogi teuluoedd i aros gydai'i gilydd yn ddiogel, a chefnogaeth therapiwtig i blant sydd wedi profi gofal

Bydd partneriaid iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg yn cydweithio gyda theuluoedd i'w helpu i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, ac atal yr angen i blant orfod derbyn gofal.

## Gwasanaethau adref o'r ysbyty

Bydd angen i rai pobl gael triniaeth mewn amgylchedd ysbyty bob amser, felly bydd hyn yn helpu pobl i gael eu rhyddhau ac i adfer gartref yn ddiogel a chyflym. Mae hefyd yhn sicrhau fod y bobl sydd angen derbyn gofal aciwt yn gallu cael mynediad hawdd iddo.

## Aebion ar sail llety

Mae hi'n hanfodol fod gan bobl amgylchedd byw cynnes, diogel a chefnogol. Mae hyn yn cynnwys ddatblygu cyfleusterau byw annibynnol, trefnu addasiadau i gartref, ac adeiladu llety ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.

# Data Perfformiad RIF

**Yn dilyn cychwyn y Gronfa Fuddsoddi Ariannol newydd ar 1af Ebrill 2022, roedd gofyniad i gyflwyno fframwaith canlyniadau a pherfformiad ar draws pob gwasanaeth a gomisiynwyd gan y Gronfa Fuddsoddi Ariannol.**


Mae'r fframwaith newydd yn sicrhau bod pob gwasanaeth yn cyfrannu at egwyddorion y canllawiau cenedlaethol ac yn darparu cyfres gyson o fesurau a dangosyddion a oedd yn cefnogi'r modelau gofal newydd.

Mae'r fframwaith yn mabwysiadu methodoleg Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau ac fe'i strwythurwyd o amgylch un canlyniad cyffredinol sy'n cwmpasu poblogaeth Cwm Taf Morganwg. Mae'r strwythur ffurfiol hwn yn darparu cyfeiriad cyson i bob gwasanaeth a phrosiect nodi eu cyfraniad ar lefelau perthnasol.


Bwriad y strwythur hwn yw sicrhau cysondeb wrth adrodd, a ddylai alluogi casglu, dadansoddi a gwireddu'r effaith lawn (gyfunol) o ran perfformiad cyfunol y rhaglenni.

### Mae'r wybodaeth isod yn rhoi trosolwg o'r hyn a ddarparwyd gan y rhaglen ar gyfer 2024/25.


**Data Canlyniadau RIF Rhanbarthol** *(Ffigwr 1)*




## Data Canlyniadau RIF Rhanbarthol *(Ffigwr 2)*





## Data Canlyniadau RIF Rhanbarthol *(Ffigwr 3)*





## Data Canlyniadau RIF Rhanbarthol *(Ffigwr 4)*




## Data Canlyniadau RIF Rhanbarthol *(Ffigwr 5)*



## **Data Canlyniadau RIF Rhanbarthol** *(Ffigwr 6)*






# Adrodd ansoddol

**Mae'r data'n cyflwyno trosolwg llawn o effaith a chyrhaeddiad y prosiectau a ariannwyd gan y RIF, a'u darparu ar draws Cwm Taf Morgannwg. Mae'n tynnu sylw at y ffyrdd niferus y cafodd unigolion a chymunedau eu cynorthwyo drwy gyfrwng mathau gwahanol o gefnogaeth, ymyriadau, a gweithgareddau ymgysylltu. Dyma grynodeb naratif ar gyfer pob thema allweddol:**

## Ymgysylltiad a chyrhaeddiad

Cafodd cyfanswm o **23,077** o unigolion fynediad at y prosiectau, gydag 8,800 o'r rheini'n unigolion newydd oedd yn defnyddio gwasanaethau am y tro cyntaf, sy'n cyfateb i gyfanswm o **58,095** o gysylltiadau a wnaed, ac sy'n awgrymu rhyngweithiadau lluosog fesul unigolyn a lefel uchel o ymgysylltu ar draws gwasanaethau.

## Cefnogaeth a ddarparwyd

O ran y mathau o gefnogaeth a ddarparwyd, derbyniodd **7,070** o unigolion gefnogaeth gynnar, derbyniodd **5,530** Wybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA).

Derbyniodd **5,378** ymyrraeth arbenigol a derbyniodd 5,082 gefnogaeth ddwys, gan ddangos dosbarthiad cytbwys o wasanaethau anghenion uwch.

## Byw'n annibynnol a diogelwch

Gwelir ymdrechion i hyrwyddo byw'n annibynnol yn amlwg ar draws y canlyniadau a gofnodwyd, gyda **5,767** o bobl yn nodi bod cefnogaeth wedi eu galluogi i fyw'n annibynnol. Yn ogystal, derbyniodd **1,610** o unigolion gymhorthion ac addasiadau i sicrhau diogelwch gartref, ac roedd **483** yn teimlo bod y gwasanaethau hyn wedi eu helpu i aros yn ddiogel gartref. Dechreuodd 2,293 o unigolion becynnau teleofal, chefnogwyd **2,528** i bontio'n ôl adref o'r ysbyty, gan amlygu ffocws cryf ar gefnogaeth yn y cartref ac yn y gymuned.



## Iechyd a llesiant

Cafodd ein rhaglenni effaith sylweddol ar iechyd meddwl a llesiant, gyda **5,545** o unigolion yn nodi gwelliannau yn y deilliant hwn. Tynnwyd sylw at unigrwydd ac ynysrwydd fel materion pwysig yn ein hasesiad o anghenion y boblogaeth, felly mae gweld bod ein rhaglenni'n dangos effaith sylweddol yn y maes hwn yn gadarnhaol gyda **3,494** o bobl yn cofnodi gostyngiadau mewn ynysrwydd.

## Gwybodaeth a hyfforddiant

Prif swyddogaethau llawer o'n prosiectau yw cynyddu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael ar draws ein cymunedau a rhannu dysgu gyda'n gweithlu ehangach, gan eu huwchsgilio i ddarparu gwell cefnogaeth i bobl ar draws ein cymunedau. Arweiniodd elfennau addysgol ymdrechion ein rhaglen at **2,578** o unigolion yn cael gwybod am wasanaethau lleol. Helpodd y mentrau hyn unigolion i deimlo'n fwy gwybodus ac yn fwy parod i lywio drwy'r adnoddau sydd ar gael.

## Deilliannau ac effaith systemau

Gostyngodd y rhaglenni'r baich ar wasanaethau brys ac ysbytai yn effeithiol, gyda **13,720** o gludiadau i'r ysbyty ac **1,116** o dderbyniadau i'r ysbyty'n cael eu hosgoi.

Yn ogystal, ataliodd ein rhaglenni plant a phobl ifanc **482** o fethiannau lleoli gan sicrhau sefydlogrwydd, ac ailymunwyd **7** o blant yn llwyddiannus â'u teuluoedd neu'u gofalwyr.

## Crynodeb

Drwyddi draw, dengys y data ddull eang ei gyrhaeddiad ac amlochrog o gefnogi, gan gwmpasu iechyd meddwl a chorfforol, diogelwch, byw'n annibynnol, cysylltiadau cymunedol a mwy. Nid yn unig y diwallodd y ddarpariaeth gynhwysfawr o brosiectau / gwasanaethau anghenion uniongyrchol, ond galluogwyd gwytnwch a lles mwy hirdymor ymhlith pobl hefyd.



Gallwch wylio un o'r cyfranogwyr, Anne, yn siarad am ei stori yma.

### Cefnogwyd Anne drwy gyfrwng model gofal prosiect swyddogion gwaith achosion iechyd Gofal a Thrwsio Cwm Taf – Nes at Adref.

Drwy fesur ein heffaith mewn ffyrdd newydd, ac adrodd straeon grymus am newid, gallwn sicrhau ein bod yn parhau i gydnabod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fel partneriaid gweithredol a chyfartal wrth ddarparu gwasanaethau. Mae cacel cipolwg ar ddymuniadau ac anghenion unigol, yn hytrach na dim ond niferoedd a data, yn caniatáu inni gyrraedd at galon yr hyn sy'n bwysig a deall cyd-destun bywydau pobl, gan wneud ein gwasanaethau'n fwy cadarn ac effeithiol o ganlyniad.



# Cyllid Cyfalaf

## Cyllid Cyfalaf Tai â Gofal (HCF)

Mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi **£60 miliwn** yn genedlaethol ar gyfer rhaglen newydd **Cyllid Cyfalaf Tai â Gofal (HCF).**

Derbyniodd **Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg (CTM)** glustnodiad blynyddol o **£18.5 miliwn** i gefnogi datblygu pibell gyflenwi gyfalaf ranbarthol.



## Blaenoriaethau Buddsoddi Cyfalaf

Gellir cyfeirio cyllid i gyfeiriad tri amcan allweddol:

### Amcan 1

**Llety Preswyl Arbenigon**

- Llety Gofal Ychwanegol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cefnogi.
- Byw â chymorth ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu, salwch meddwl, neu i bobl ifanc sy'n gadael gofal.

### Amcan 2

**Gofal Preswyl a Chanolraddol ar Raddfa Fechan**

- Gofal preswyl ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.
- Llety byrdymor a thymor canolig i oedolion ag anghenion cymhleth.
- Lleoliadau gofal canolraddol (e.e. camu i fyny / camu i lawr, fflatiau ailaluogi, gofal seibiant).

### Amcan 3

**Gwelliannau i Ddarpariaeth sy'n Bodoli Eisoes**

- Trwsio ac adnewyddu tai presennol gyda lleoliadau gofal.
- Offer, addasiadau i gartref, cymhorthion digidol, ac ychwanegiadau at Grantiau Cyfleusterau Anabl.

Mae **Bwrdd Cyfalaf Rhanbarthol** yn rhoi trosolwg strategol ac yn cynghori'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o ran buddsoddi yn unol ag anghenion rhanbarthol. Ymysg grwpiau blaenoriaeth mae pobl hŷn, unigolion â dementia, anableddau dysgu, cyflymrau niwroddatblygiadol, plant ag anghenion cymhleth, a gofalwyr.

Isod ceir safle cyllideb diwedd blwyddyn y Flwyddyn Ariannol 24/25.

| Amcan Cyfalaf HCF | Ymrwymiadau Crofna HCF |
|---|---|
| Ymrwymiadau cynlluniau graddfa afawr Amcan 1 & 2 | **£7,422,124.28** |
| Prosiectau Bychain Amcan 3 | **£867,950.97 + £300,000** (DFG ychwanegol) |
| Clustnodiad DFG Ar Wahân | **£436,450** |
| **Cyfanswm Ymrwymiadau HCF** | **£9,026,525.25** |
| **Llithriant** | **£2,475.25** |

## Llwyddiannau'r Rhaglen Gyfalaf (Ers 2022/23)

Mae'r rhaglen gyfalaf wedi galluogi creu **101 gwely newydd,** gan gynnwys:

**60 gwely** mewn Cynllun Gofal Ychwanegol ym Mhontypridd.

**5 gwely** ar gyfer gadael yr ysbyty a llety camu i lawr.

**26 gwely** mewn cartrefi gofal plant preswyl.

**10 gwely** ar gyfer y rheiny sy'n gadael gofal a phobl ifanc a brofodd ofal (16+).

## Dangos Cynnydd ar Gynllun Piblinell Cyfalaf CTM – Tŷ Thomastown, Llety Preswyl i Blant (CBS Merthyr Tudful)

Datblygiad allweddol yn y cyfnod cynnar ym mhiblinell cyfalaf CTM yw Tŷ Thomastown, prosiect preswyl i blant a gynlluniwyd i hyrwyddo mwy o annibyniaeth ac integreiddio cymunedol i bobl ifanc.

Bydd y datblygiad yn cynnig:

- Dau gartref a adeiladwyd yn bwrpasol ar gyfer hyd at **chwech o bobl ifanc.**
- Llety **seibiant / seibiant byr i ddau o bobl ifanc.**
- Gofal a chymorth ychwanegol i **dri neu bedwar** o bobl ifanc eraill.
- Y gallu i gefnogi hyd at **ddeg o bobl ifanc** ar unrhyw adeg.

Nod y prosiect hwn yw darparu'r lefel gywir o gymorth lleol, gan helpu pobl ifanc i feithrin cysylltiadau cymunedol cryf a phontio'n llwyddiannus i fod yn oedolion.

Dangosir isod ddelwedd o'r safle sy'n eiddo i'r cyngor ar ôl ei adfywio.









## Strategaeth Buddsoddi Cyfalaf

Yn 2023, bu i ni ddatblygu **Strategaeth Buddsoddi Cyfalaf ranbarthol** ar gyfer Cwm Taf Morganwg, gan nodi gweledigaeth 5–10 mlynedd ar gyfer buddsoddi cyfalaf ar draws y rhanbarth. Seiliwyd y strategaeth hon, a gafodd ei hadnewyddu yn 2024, ar ddata o'r Asesiad Anghenion Poblogaeth, gyda sylw penodol ar lety a darparu gwelyau.

Mae'r strategaeth a adfywiwyd yn nodi prosiectau blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi drwy raglenni **Tai gyda Gofal** a'r **Gronfa Integreiddio a Chynllunio Gofal (IRCF)**. Nod y prosiectau hyn yw:

- Cefnogi rhyddhau o'r ysbyty yn amserol a gofal camu-i-lawr.
- Hyrwyddo byw'n annibynnol a byw â chymorth.
- Dileu elw o ofal preswyl plant.
- Datblygu cyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.
- Ailgydbwyso'r farchnad gofal tuag at ddarpariaeth ddi-elw.

**Darllenwch y Strategaeth Fuddsoddi Cyfalaf wedi'i hadfywio yma.**

## Cyllid Integreiddio a Chynllunio Gofal (IRCF)

Mae Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn rhaglen a sefydlwyd i gefnogi'r Rhaglen Lywodraethu'n uniongyrchol.

**Mae'n ymrwymo i ddatblygu 50 o ganolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig a chefnogi ailgydbwyso'r farchnad gofal preswyl. Fe'i sefydlwyd i:**


1. Cefnogi dull cydlynol o gynllunio cydleoli ac integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o fewn y gymuned ledled Cymru.
2. Cefnogi ailgydbwyso darpariaeth gofal preswyl i oedolion trwy gynyddu'r ddarpariaeth o fewn y sector nid-er-elw.
3. Cefnogi dileu elw o ddarpariaeth gofal preswyl i blant.

Mae'r rhanbarth wedi sicrhau tair rhaglen fuddsoddi sylweddol o dan IRCF:

- **Ailddatblygu Ysbyty Cymunedol Maesteg** yn Hyb Iechyd a Llesiant Integredig, gyda £1 miliwn o gyllid yn cael ei ddyfarnu i gefnogi datblygu Achos Busnes Strategol Amlinellol ac Achos Busnes Amlinellol ar y cyd. Amlygwyd y cynllun i ddecrhau fel un fyddai angen rhyw £15 miliwn i ailddatblygu hen Ysbyty Maesteg. Fodd bynnag, yn dilyn penodi Partneriaid Cadwyn Gyflewi arbenigol, cynyddodd costau'r cynllun i £48 miliwn, oherwydd sawl ffactor gan gynnwys cyfyngiadau'r safle a gorfod cadw'r arwyneb allanol. Mae opsiynau wrthi'n cael eu hadolygu gyda'r Partneriaid Cadwyn Gyflenwi a rhanddeiliaid ehangach ar hyn o bryd, er mwyn penderfynu sut orau i ddatblygu'r gofyniad yn y ffenestr gyllido arfaethedig o £30 miliwn.
- **Canolfan Iechyd a Llesiant Sunnyside (Pen-y-bont ar Ogwr)** – dyfarnwyd **£17.1 miliwn.**
- **Cartref Gofal Bronllwyn** – cytunodd y gweinidog bellach ar gyllid o **£7.6 miliwn** i ailddatblygu cyn-Gartref Gofal Bronllwyn fel llety gofal arbenigol i oedolion hŷn ag anableddau dysgu.

# Dementia

Mae dementia'n parhau i fod yn flaenoriaeth genedlaethol allweddol, gydag agenda glir wedi'i nodi drwy'r **Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia (DAP)** a **Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan.** Mae'r rhaglen yng Nghwm Taf Morganwg (CTM) yn cyd-fynd yn agos â'r fframwaith cenedlaethol hwn, gan gefnogi cyflawniad y safonau ar draws y rhanbarth (gweler y graffig isod).



O fewn CTM, strwythurwyd y rhaglen o gwmpas pedwar llif gwaith gwahanol:

1 **Cymuned a Chysylltwr**

2 **Gwasanaethau Cof**

3 **Siarter Ysbyty**

4 **Addysgu a Datblygu'r Gweithlu**

Seilir y pedwar llif gwaith hwn gan ymrwymiad i blaid cydraddoldeb deilliannau i bob dinesydd a phwyslais cryf ar gyd-gynhyrchu ac ymgysylltu â phobl â phrofiad byw.

## Cymuned a Chysylltwr

Mae'r llif gwaith hwn yn parhau i yrru darparu safonau perthnasol drwy integreiddio â'r llif gwaith Cysylltwr Dementia, gan greu dull mwy gwydn a chydweithredol Ymysg llwyddiannau allweddol yn 2024/25 mae:

- Cyflwyniad llwyddiannus o fentrau **Troi'n Las** ar draws y rhanbarth, dan arweiniad Pontypridd Cyfeillgar i Ddementia.
- Cynnydd tuag at **statws Cyfeillgar i Oed WHO** ymhob awdurdod lleol, gydag RCTCBC eisoes wedi'i achredu.
- Lansio **Grantiau Cymunedol Dementia** i ariannu cefogaeth a seilir ar weithgareddau a amlygwyd drwy gyfrwng ymgysylltu rhanbarthol.
- **Hyfforddiant dementia** wedi'i gud-gynhyrchu ar gyfer lleoliadau cymunedol, a ddatblygwyd gyda phobl â phrofiad byw.
- Cynhyrchu **ffilm fer** sy'n tynnu sylw a werth gwrando cymunedol.
- Comisiynu **Canllawiau Cof a Llesiant (Cysylltwyr Dementia),** sydd bellach yn cefnogi dros 200 o unigolion.
- Cydweithio gydag **arweinwyr Cynllunio Gofal Uwch,** gyda hyfforddiant yn ymestyn i'r trydydd sector er mwyn cefnogi cynnal sgyrisau ystyrlon am ofal diwedd bywyd.

## Gwasanaethau Cof

Mae Gwasanaethau Cof yn CTM wrthi'n cael eu trawsnewid i sefydlu model unedig, ar draws y rhanbarth, sy'n sicrhau cydraddoldeb mynediad a deilliannau. Gwnaed cynnydd yn erbyn pob un o'r naw safon o fewn y llif gwaith hwn. Mae uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Integreiddio **codau READ** i WPAS.
- **Nyrsys Band 6** bellach yn cynnal asesiadau dementia.
- **Nyrsys Band 7** yn cwblhau hyfforddiant cyfadran dementia i gefnogi model **Nyrs Arbenigol Clinigol sy'n diagnosio.**
- Diweddaru a chadarnhau **Gweithdrefnau Gweithredu Safonol,** gan sicrhau bod yr holl asesiadau angenrheidiol wedi'u cwblhau cyn atgyfeirio (yn unol â Safon 5).
- Gwerthusiad cadarnhaol o **grwpiau nam gwybyddol ysgafn (MCI),** gyda chanfyddiadau wedi'u cyhoeddi yng nghyhoeddiadau Age Cymru a Chymdeithas Alzheimer.
- Cyflwyno **Therapi Ysgogiad Gwybyddol** yn gyson ar draws y rhanbarth.
- Comisiynu cefnogaeth **Rhaglen Gwybodaeth a Chymorth Gofalwyr (CrISP)** i ofalwyr.
- Datblygu **un pwynt mynediad** ar gyfer gwasanaethau cof, y bwriedir ei gyflwyno yn 2025/26.





## Siarter Ysbyty

Mae'r llif gwaith hwn yn canolbwyntio ar wella'r profiad ysbyty i bobl â dementia a'u gofalwyr. Mae datblygiadau allweddol yn cynnwys:

- Ymgorffori **Mapwyr Gofal Dementia** ar draws safleoedd iechyd meddwl ac Ysbytai Cyffredinol.
- Ymgorffori **archwiliadau amgylchedd sy'n gyfeillgar i ddementia Cronfa'r Brenin** yn system archwilio'r Bwrdd Iechyd (AMAT).
- Peilot **bathodynnau enw sy'n Gyfeillgar i Ddementia.**
- Adnewyddu **Ymgyrch John,** dan arweiniad Nyrsio Corfforaethol, gan gynnwys cyflwyno **Pasbort Gofalwyr** ac adolygu oriau ymweld.
- **Cais cyfalaf** llwyddiannus ar gyfer **systemau RITA,** sydd bellach ar waith mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ledled y rhanbarth.

## Dysgu a Datblygu'r Gweithlu

O dan Lif Gwaith 5a, comisiynodd y Grŵp Llywio Dementia adolygiad cynhwysfawr o wasanaethau dementia yn 2024–2025. Distyllodd yr adolygiad hwn dros 200 o argymhellion i **22 Maes Ffocws,** pob un â chamau gweithredu tymor byr, canolig a hir, map ffordd gweithredu clir, a chanlyniadau mesuradwy.

Fe wnaeth yr **adolygiad llwybr NECS** hefyd ddadansoddi gwariant RIF ar Ddementia, gan amlygu fod cyllid yn cael ei wario yn y **cam ôl-ddiagnosis,** a thynnu sylw at feysydd ble gellid gwella.

Blaenoriaeth allweddol ar gyfer y llif gwaith hwn yw datblygu **dull a ffafrir yn rhanbarthol at hyfforddiant cyfathrebu dementia.** Mae CTM wrthi ar hyn o bryd yn archwilio'r model **Agweddau Positif at Ofal (PAC)** – a elwir hefyd yn **ddull Teepa Snow** – mewn partneriaeth â chydweithwyr SCDWP, gyda'r nod o godi safonau a chreu gweithlu sydd a hyfforddwyd yn dda, ag ymwybyddiaeth dda o ddementia ym meysydd iechyd
a gofal cymdeithasol.



# Uned Gomisiynu Ranbarthol

Mae'r Uned Gomisiynu Ranbarthol yn cefnogi'r Bartneriaeth Ranbarthol drwy:


- Gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morganwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, y trydydd sector, tai ac addysg.
- Adrodd ar berfformiad a buddsoddiad mewn gwasanaethau, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau a gwerth am arian i ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid yn ogystal â chydlynu llywodraethu'r bartneriaeth.
- Rheoli a chydlynu ystod o gyllid Llywodraeth Cymru sy'n cael ei gyfeirio drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gan gynnwys y Gronfa Integreiddio Ranbarthol (RIF), Cronfa Tai gyda Gofal (HCF) a rhaglenni cyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Gofal (IRCF).

Mae'r cyllid hwn yn bwysig iawn am ei fod yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau a'r gefnogaeth gywir ar gael i bobl sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Sicrhawyd capasiti ychwanegol yn 2024/25. Ymunodd dau Reolwr Rhaglen Gyfalaf ychwanegol â'r tîm yn 2024 a dylai'r Rheolwr Rhaglen Anabledd Dysgu ddechrau erbyn mis Medi 2025.

NYTH | NEST

Fel y nodwyd eisoes, recriwtiwyd Cydlynydd NYTH/NEST i Blant a Phobl Ifanc ym mis Mawrth 2024, â'r dasg o weithredu Fframwaith NYTH/NEST yn y Bartneriaeth Ranbarthol.



# Hyb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwella

Lleolir Hwb RIC o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTMUHB). Ei brif rôl yw nodi a chydlynu arferion a gweithgareddau arloesol yn seiliedig ar anghenion y boblogaeth ar draws rhanbarth Cwm Taf Morgannwg, sy'n cynnwys awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, a Merthyr Tudful.

## Trosolwg o Arloesi:

Mae Hyb RIC CTM wedi bod yn gweithio ar well cydlynu ac alinio, gan ddarparu pwynt cyswllt a chyfeirnod ar gyfer gweithgareddau ac arbenigedd o ran arloesi. Maen nhw wedi bod yn gweithredu fel arweinyddion arbenigol drwy dirwedd arloesi anniben, gan adeiladu ar eu llwyddiannau blaenorol o helpu i sicrhau cyllid a chefnogaeth. Mae Hyb RIC CTM yn parhau i gefnogi prosiect cysylltu Tai ac maen nhw hefyd yn darparu cyfleoedd ariannu ar gyfer prosiectau arloesol mewn cydweithrediad â Phrifysgol Met Caerdydd drwy Raglen SIPs.





## Gweithio gyda rhanddeiliaid i fapio diwydiant preifat:

Bu Hyb RIC CTM yn gweithio gyda Phartneriaeth Gwasanaethau a Rennir Genedlaethol Cymru (NWSSP), Hyb Gwyddorau Bywyd Cymru, a Chanolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru i fapio'n gywir ddiwydiant preifat ledled Cwm Taf Morganwg sy'n hunan-nodi fel bod yn y Sector Gwyddorau Bywyd.

## Cyfathrebu ac ymgysylltu:

Bu Hyb RIC CTM yn sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn cael gwybod am yr holl weithgaredd arloesi ac yn ymgysylltu â nhw. Maen nhw wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid eraill i rannu syniadau, osgoi dyblygu gwaith, a gwahodd cyfleoedd i ledaenu a graddio ar draws rhanbarthau eraill trwy rwydweithiau'r RIC. Yn anffodus, nid lwyddodd RIC CTM i recriwtio Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

## Capasiti arloesol ac adweithiol:

Darparodd tîm Hyb RIC CTM adnodd deinamig ac addasol i gefnogi amrywiol weithgareddau y tu allan i'w gynllun gweithgaredd blaenorol, a ysgogwyd yn bennaf gan COVID-19. Mae'r cynllun gweithgaredd at y dyfodol yn cydnabod y capasiti hwn ac yn cynnwys mentrau i hyrwyddo arferion cynaliadwy a lleihau gwastraff yn y sector cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys bod yn rhan o astudiaethau peilot sy'n archwilio manteision economi cylchol fel Prosiect Ailgylchu Cardbord Newydd.

## Atal:

Mae cynllun gweithgareddau Hyb RIC CTM yn cynnwys mentrau i atal problemau iechyd drwy ymyrraeth gynnar a mesurau ataliol. Maen nhw'n cyd-ariannu swydd rheolwr Rhaglen Arloesi Tai Iach, ar y cyd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) lleol, i gysylltu data iechyd a thai, ac i flaenoriaethu cartrefi sydd angen ymyriadau effeithlon o ran ynni.

## Grant Innovate UK:

Fe wnaeth Hyb RIC CTM arwain grant Innovate UK llwyddiannus gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf, Tai Hafod, a Phrifysgol De Cymru hefyd i amlygu cartrefi ledled Cwm Taf Morgannwg sydd fwyaf angen eu gwella. Yn ystod y chwarter hwn, rydyn ni wedi parhau â'r gwaith hwn law yn llaw â phartneriaid er mwyn rhoi'r gwaith hwn ar waith.

## Hyrwyddo cydweithio ar draws sectorau a disgyblaethau:

Mae cynllun gweithgareddau Hyb RIC CTM yn cynnwys mentrau i hwyluso cydweithio a rhwydweithio ymhlith staff, sefydliadau a chymunedau. Datblygwyd grwpiau rhwydwaith, fel grŵp ymarferwyr RIC, ac maen nhw'n archwilio gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i gyfnewid syniadau ac adnoddau, fydd o fudd i'r ddau sefydliad drwy adeiladu ar bartneriaethau presennol, hyrwyddo arloesi, cynyddu capasiti, gwella cydweithio, ac adeiladu cynhwysiant.

## Integreiddio:

Mae cynllun gweithgareddau Hyb RIC CTM yn cynnwys mentrau i archwilio integreiddio a chydweithio rhyngddisgyblaethol ar draws y sector cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo mabwysiadu technolegau a phrosesau newydd i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a datblygu prosesau ar gyfer profi a pheilota syniadau newydd. Mae Hyb RIC CTM yn parhau i fod yn rhan o blatfform SimplyDo Idea mewn cydweithrediad ag iCTM ac mae'n adolygu cyfleoedd newydd yn rheolaidd.


**Gallwch ddarllen adroddiad blynyddol Hyb RIC yma.**











# Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf Morganwg (SCWDP)

Mae Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Cwm Taf Morganwg yn cydnabod ac yn ymdrechu i gyflawni amcanion cynllun cyflawni gweithlu Gofal Cymdeithasol 2024 i 2027 er mwyn cyflawni uchelgais 2030 o gael gweithlu brwdfrydig, ymgysylltiedig a gwerthfawr sydd â'r gallu, y cymhwysedd a'r hyder i ddiwallu anghenion pobl Cwm Taf a Chymru. Er mwyn cefnogi modelau gofal presennol a newydd, rhaid i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gryfhau'r gefnogaeth, yr hyfforddiant, y datblygiad a'r gwasanaethau sydd ar gael i'r gweithlu, gan roi sylw i feithrin sgiliau gyrfa gyfan a chefnogi eu hiechyd a'u lles.

Mae modelau di-dor newydd o iechyd a gofal sy'n dod i'r amlwg yn gofyn am ddull clir a chydlynol o ddatblygu a chynllunio'r gweithlu cyfan. Er mwyn diwallu'r angen hwn, comisiynodd Llywodraeth Cymru Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) a Gofal Cymdeithasol Cymru (SCW) i ddatblygu strategaeth gweithlu hirdymor, mewn partneriaeth â'r GIG a Llywodraeth Leol, y sectorau gwirfoddol ac annibynnol, yn ogystal â rheoleiddwyr, cyrff proffesiynol a darparwyr addysg.

Wedi'i strwythuro o amgylch 6 model gofal, bydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn helpu sefydliadau sy'n gweithio ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a lles i wneud y pethau canlynol:

- Canolbwyntio ar atal a mynd i'r afael â heriau yn gynnar.
- Gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol 'cydgysylltiedig'.
- Rhannu profiadau a dysgu gyda'n gilydd trwy grwpiau pwrpasol o'r enw 'cymunedau ymarfer'.
- Dod â staff o wahanol sefydliadau ynghyd i ddarparu gwasanaethau.

Bydd CTMSCWDS yn parhau i gefnogi gwaith parhaus yn unol â RIF trwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi a dysgu a datblygu wedi'u targedu, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â gofal cymunedol, cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, cefnogaeth therapiwtig i blant sydd wedi bod mewn gofal, a gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety.

**Rôl gwasanaeth Datblygu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf Morganwg, fel y'i llywodraethir gan Fwrdd Llywodraethu Strategol SCWWDP, yw:**

- Casglu ac ystyried data'r gweithlu i sicrhau bod y gwaith o gynllunio'r gweithlu yn sensitif i unrhyw newidiadau, heriau neu gyfleoedd sylweddol ar draws sectorau yn y farchnad gofal cymdeithasol.
- Gweithio gydag eraill i ystyried gofynion a safonau da yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol i lywio anghenion datblygu'r gweithlu.
- Gweithio gyda phartneriaid ar draws y sectorau gofal i sicrhau bod mentrau datblygu'r gweithlu yn cael eu blaenoriaethu a'u targedu'n briodol i ddiwallu anghenion.

Comisiynu gweithgareddau dysgu a datblygu, a hwyluso cyfleoedd i ddarparu cysylltiadau i ddiwallu anghenion datblygu'r gweithlu drwy:


- Rhaglen datblygu'r gweithlu a ariennir gan Grant sydd ar gael i ddarparwyr gofal cymdeithasol.
- Rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau hyfforddi a datblygu wyneb yn wyneb ac ar-lein.
- Datblygu dulliau darparu hyfforddiant hyblyg.
- Ymgysylltu â chyflwyno'r iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru.
- Mynediad i gynadleddau a digwyddiadau rhwydweithio.
- Cymwysterau newydd, Cymwysterau Galwedigaethol a chymwysterau cyfatebol a fframweithiau cymhwysedd.
- Cyfleoedd cymhwyso, ôl-gymhwyso a DPP i weithwyr cymdeithasol cymwys a rheolwyr cofrestredig.
- Cefnogaeth, cyngor ac arweiniad parhaus.
- Ystod eang o ddulliau cyfathrebu a gwybodaeth gan gynnwys cylchlythyrau a bwletinau rheolaidd.
- Gwerthuso effaith cynlluniau dysgu a datblygu rhanbarthol ar wasanaethau a'r gweithlu.

**Datblygwyd a chytunwyd ar Gynllun Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol gan SCWWDP Cwm Taf Morgannwg a'i gymeradwyo gan Gyfarwyddwr Arweiniol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn RhCT, yn dilyn ymgynghori â Chyfarwyddwyr ym Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr.**

Yn unol â'r blaenoriaethau a osodwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Cylchlythyr Grant, sy'n cynnwys y Grant Hwyluso Rhanbarthol, sy'n cael ei addysgu gan ddadansoddiad o anghenion hyfforddi ar draws y sector, ac yn dilyn gosod blaenoriaethau strategol drwy SCWWDP Cwm Taf Morgannwg, cynlluniwyd y rhaglen waith ar gyfer 2025/2026, ac mewn rhai achosion (fel yn achos hyfforddiant cymhwyso Gwaith Cymdeithasol) a modelau ymarfer newydd, ymlaen at 2027/2028.



# Atodiad



# Gwehyddu Partneriaethau Cryf yng Nghwm Taf Morgannwg

**Adroddiad Blynyddol** 2024/2025

Cwm Taf Morgannwg
Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership

**ctmregionalpartnershipboard.co.uk**

